OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2001 No. 2678

## Rheoliadau Newid Categori Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2001

**Llywodraethwyr gormodol**

**15.**—(1) Os bydd—

(a) gan ysgol fwy o lywodraethwyr ar neu ar ôl y dyddiad gweithredu mewn categori penodol na'r hyn sy'n ofynnol fel llywodraethwyr yn y categori hwnnw o dan yr offeryn llywodraethu newydd, a

(b) bod y gormodedd heb ei ddileu drwy ymddiswyddiadau,

bydd y nifer yn y categori hwnnw y mae ei angen i ddileu'r gormodedd yn peidio â dal eu swyddi yn unol â pharagraffau (2) a (3).

(2) Ar sail eu cyfnod yn eu swydd y penderfynir pa lywodraethwyr sydd i beidio â dal eu swyddi, a'r llywodraethwr sydd wedi gwasanaethu am y cyfnod di-dor byrraf ar hyn o bryd (p'un ai fel llywodraethwr un categori neu fwy nag un) fydd y cyntaf i beidio â dal ei swydd.

(3) Os bydd angen at ddibenion paragraff (2) dewis un neu fwy o lywodraethwyr o blith grŵ p sy'n gyfartal o ran eu cyfnod yn eu swydd, gwneir hynny drwy dynnu enwau ar hap.

(4) At ddibenion y rheoliad hwn, rhaid ymdrin â llywodraethwyr cyfetholedig ychwanegol a enwebir gan gategori penodol o berson fel petaent yn gategori ar wahân o lywodraethwyr.

(5) Ni fydd unrhyw weithdrefn a nodir yn yr offeryn llywodraethu newydd ar gyfer diswyddo llywodraethwyr sefydledig gormodol yn gymwys ar gyfer ailgyfansoddi'r corff llywodraethu o dan y Rheoliadau hyn.